CYNGOR BRO LLANGELER – 25-03-2019

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Mawrth 25ain 2019 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **03/19 PRESENNOL:** Yn y gadair – Cyng. John Crossley, Cynghorwyr: Jamie Ayres, Delyth Evans, Richard Evans, Aled Eynon, Ken Howell, Brenda Jones, Nesta Jones, Marc Rees, Dilwyn Smith, Adrian Thomas,. Clerc – Stella Jones
HEFYD YN BRESENNOL – Heddlu a Cyfieithydd

2. **03/19 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Christopher Jones, John Wigley.

3. **03/19 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Materion yn Codi – 6.6i.03/18 Cyng. K Howell, D Smith, M Rees

4. **03/19 HEDDLU:** PCSO J Kedward – dwedodd ei fod wedi gwneud mesuriadau o'r hewl ac wedi siarad a'r Frigâd Dân, mae'n bwriadu gofyn i reolwr y frigâd dân i fynd i weld y lle. Parcio ar y palmant ger Parc Puw, cwyn wedi dod mewn ar ebost – y broblem yw os bydd ceir yn parcio ar yr hewl mae hyn yn gwneud yr hewl yn gul iawn.

5. **03/19 COFNODION:** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Chwefror 25ain 2019
Cynigydd – Cyng. K Howell Eilydd – Cyng. D Evans

6. **03/19 MATERION YN CODI :**
12.i.01/14. b)Audio Trail – *Cyng J Ayres*
6.i. Pwyllgor y Parc – *Clerc yn mynd i weld y Cyfreithiwr yr wythnos nesaf i olrhain y newidiadau angenrheidiol*
7.xv.05/16 Caeau Canmlwyddiant – *Clerc wedi derbyn y mesuriadau am faint y plac ac yn aros am bris wrth Mr B Davies*
10.11.07/16. Toiledau Parc Puw – *dwedodd y Cyng K Howell bod dim ateb wrth y Cyngor Sir ar beth sy'n digwydd nesaf*
10.i.09/16 Parc Pentrecwrt – *dwedodd y Clerc eto bydd y les yn cael ei pharatoi unwaith bydd y les arall wedi ei chwblhau ac y byddai yn trafod hyn gyda'r cyfreithiwr.*
10.i.06/17 Tir Temple – *dim mwy i adrodd ar hyn o bryd*
10.01/19 Dadorchuddio Plac Caeau Canmlwyddiant – awgrymwyd y gallai Mr Ian Salmon sy'n byw ym Mhentrecagal fel gŵr a fu'n aelod o'r Fyddin am 36 mlynedd

7. **03/19 GOHEBIAETH:**
i. Cymdeithas Ddiwylliadol Capeli Heol Awst a Smyrna – Hysbysiad o gyngerdd
ii. ebost – ULlC –Bwletin Newyddion Chwefror 2019 – *cylchlythyrwyd*
iii. ebost – Claddu Gwastraff Niwclar yng Nghymru – *cylchlythyrwyd*
iv. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio *25.02.19 - 01.03.19* – cylchlythyrwyd
v. ebost – Came & Company Local Council Insurance - Pre Renewal Email -
vi. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio *04.03.19 - 08.03.19* – cylchlythyrwyd
vii. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio *11.03.2019 - 15.03.2019* – cylchlythyrwyd
viii. ebost – CSG – Fforwm Cyswllt 19.03.2019 Liaison Forum – cylchlythyrwyd
ix. ebost – CSG – cau ffordd dros dro: yr U5408, Felindre, Llandysul – cylchlythyrwyd
x. ebost – CSG – Ceisiadau Cynllunio 18.03.2019 - 22.03.2019 – cylchlythyrwyd
xi. ebost – CSG – Martin Murray – yn dilyn cyswllt roedd y clerc wedi gwneud ynghylch pont ger Rhydwyrn oedd wedi golchi ffwrdd gyda'r llif dwedodd Martin Murray ei bod fel Sir yn edrych i ail leoli'r bont mewn lle llai tebygol i ddifrodi.
xii. ebost – Cae Chwarae Saron a'r Cylch – *llythyr yn gofyn pam na all y cyfreithiwr weithio ar y les – dwedodd y Clerc fel y mis cynt nad oedd y cyfreithiwr weithio ar ddau les i'r Cyngor ar yr un pryd.*

8. 03/19 CYNLLUNIO
Cais Ymgynghori llaw
W/38271 – galw nôl am ebost y cais – *gofyn pa reswm mae hyn wedi digwydd.*
W/38494 – Plot F, Hafod Hedd, Saron SA44 5DR – adeiladu garej sengl i gefn yr adeilad – *dim gwrthwynebiad*
W/38557 – tŷ mas yn Tŷ Newydd, Llangeler, SA44 5ET – trosiad adeilad allanol yn llety gwyliau – *mewn egwyddor does dim gwrthwynebiad ond bod pryder am y cynnydd mewn ceir ar dro peryglus.*

9. 03/19 MATERION ARIANNOL
i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 25/03/2019 .....£71.40
ii. HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 25/02/19.....£10.50
[rhoddwyd caniatâd i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn]
iii. STELLA JONES[stampiau].....£15.00
Arian yn y Banc ar 07/02/19 .....£12,925.86

b. S/O
Cyflog y Clerk £550.00

_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

c. Credid

Ad daliad TAW £7,112.92

ch. Cais am Gefnogaeth Ariannol

Gŵyl Gerdd Dant - £50
Gofal mewn Galar – £50

10. 03/19 MATERION ANGEN TRAFODAETH

Trasio – angen rhywun i ymgymryd a gwaith Mr Dylan Davies sy'n gorfod rhoi lan oherwydd iechyd – awgrymwyd i'r Clerc ofyn i Mr Ryan Jones neu Mr Wayne Long a oes diddordeb ganddynt i ymgymryd a'r gwaith.

11. 03/19 SYLWADAU'R CYNGHORWYR

1. Cyng B Jones – i. hysbysu bod noson yn yr Amgueddfa Wlân fel rhan o'r Dathlu Diwylliant
   ii. Da iawn gweld bod yf Festri yn Llangeler wedi cael ei ail wneud
2. Cyng D Evans – i. neb wedi bod allan i weld na gwneud dim am y twll mawr yn yr hewl i Drefelin
3. Cyng A Thomas – i. dal i fod sbwriel wedi cael ei adael ar ochr yr hewl ger yr Half Moon, Pont Tweli
4. Cyng R Evans – i. yr hewl o Bancyffordd i Llanpumsaint yn wael ddifrifol
   ii. sôn am y garreg filltir yn Llaintarad wedi diflannu – *neb yn gwybod lle mae wedi mynd*
5. Cyng K Howell – i. ynghylch blwch postio Saron – *mae wedi gofyn i Jonathan Edwards AS ysgrifennu at y Swyddfa Bost am y mater.*
6. Cyng J Crossley – hysbysu er gwybodaeth ei fod yn cynnal noson i godi arian i elusen Parkinson ar Fawrth 29ain

12. 03/19 CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod Misol nesaf yn Neuadd yr Eglwys, Penboyr, Felindre, Llandysul nos Lun Ebrill 29ain 2019 am 7.30 yh.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.50yh

_____ Cadeirydd _____ Dyddiad

.